**PUM PETH PERSONOL**

# Gweddi

## Gweddiwn

Arglwydd Dduw, a greodd y byd yn gartref i ni, rydyn ni am fod yn stiwardiaid gwell ar y greadigaeth, a chyflwynwn y dewisiadau gofalgar a wnaethom yn ystod yr wythnos yn arwydd o'n cariad a'n gofal, a hefyd o'n hawydd i wneud mwy i wyrdroi'r difrod mae'r ddynoliaeth wedi'i achosi i'th gread.

Gwyddom fod rhai dewisiadau gofalgar yn haws i rai ohonom nag eraill, ond diolchwn am bob cam bach a mawr a gymerwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Gweddïwn hefyd y bydd pob un ohonom yn mentro gwneud mwy o ddewisiadau sy'n dangos cariad at gymydog, fel y gallwn, yn unigolion ac fel eglwys, gydweithio i ofalu am y blaned a greaist ti, sy'n gartref mor hardd i ni.

Amen

